# Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

**2013 dccc 1**

## RHAN 5

SWYDDOGAETHAU AMRYWIOL YSGOLION

*Cwnsela mewn ysgolion*

### 93 Gwybodaeth am wasanaethau cwnsela annibynnol eraill

(1) Rhaid i awdurdod lleol gydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru i'r awdurdod i wneud y canlynol—

(a) crynhoi gwybodaeth am y gwasanaeth cwnsela annibynnol y mae'n ei sicrhau o dan adran 92;

(b) darparu gwybodaeth am y gwasanaeth hwnnw i Weinidogion Cymru.

(2) Caiff cyfarwyddyd o dan is-adran (1) gynnwys arweiniad i grynhoi neu ddarparu gwybodaeth mewn modd, ac ar adeg, a bennir yn y cyfarwyddyd.

(3) Ni chaniateir i gyfarwyddyd o dan is-adran (1) ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol—

(a) darparu gwybodaeth am unigolyn dynodedig;

(b) darparu gwybodaeth mewn modd sydd, naill ai ar ei phen ei hun, neu mewn cyfuniad ag unrhyw wybodaeth arall, yn dynodi unrhyw unigolyn y mae'n ymwneud ag ef neu sy'n galluogi'r unigolyn hwnnw i gael ei ddynodi.

(4) Os nad yr awdurdod lleol yw'r person sy'n darparu gwasanaeth cwnsela annibynnol—

(a) rhaid i'r awdurdod lleol roi i'r person sy'n darparu'r gwasanaeth gopi o unrhyw gyfarwyddyd a roddir o dan is-adran (1), a

(b) rhaid i'r person sy'n darparu'r gwasanaeth grynhoi'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i gydymffurfio â'r cyfarwyddyd, a'i darparu i'r awdurdod lleol mewn modd nad yw'n dynodi'r unigolion y mae'n ymwneud â hwy, nac yn ei

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

gwneud yn bosibl iddynt gael eu dynodi (naill ai ar ei phen ei hun neu mewn cyfuniad â gwybodaeth arall).

(5) O ran cyfarwyddyd o dan yr adran hon—

(a) rhaid iddo fod yn ysgrifenedig;

(b) caniateir iddo gael ei amrywio neu ei ddirymu gan gyfarwyddyd diweddarach;

(c) gellir ei orfodi drwy orchymyn mandadol ar gais Gweinidogion Cymru neu ar eu rhan.